

Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru

Cod Ymddygiad Modelau Rôl

Diogelu – Cwestiynau Cyffredin



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiwn Cyffredin	Ateb
Oes angen gwiriad DBS ar Fodel Rôl?	Nid yw Modelau Rôl yn cynnal gweithgarwch rheoleiddiedig neu'n ymgymryd ag ymyriadau rheolaidd gyda phobl ifanc; mae eu hymyriadau'n fyr eu natur a dylent bob amser gael eu goruchwyllo yn ystod ymweliadau ag ysgol/athrofa.
Fel Model Rôl dylwn i gael fy hebrwng gan berson cyfrifol ar bob adeg pan fyddaf mewn lleoliad?	Wrth gyrraedd, dylai Modelau Rôl fod yn fodlon datgan y rheswm dros eu hymweliad a phwy sydd wedi cysylltu â nhw ar eich rhan. Bydd gofyn i'r Model Rôl lofnodi wrth fynd i mewn yn unol â pholisi'r lleoliad ac mae'n bosibl y cewch chi fathodyn ymwelydd ar yr adeg hon, y byddwch yn ei rhoi'n ôl a thorri'ch enw eto wrth ymadael. Dylai oedolyn cynrychioliadol gwrdd â'r Modelau Rôl a dylai fod goruchwyliaeth ar bob adeg tra byddant yn adeiladau'r lleoliad.
Beth sy'n digwydd os bydd Model Rôl yn cael ei adael ar ei ben ei hun gyda grŵp o bobl ifanc sydd o dan neu dros 18 oed, ac ydy'r oedran yn gwneud gwahaniaeth?	Rhoddir gwybod i'r holl gysylltiadau mewn ysgolion, lleoliadau Addysg Bellach ac Uwch a'r tu allan i addysg na ddylai Modelau Rôl gael eu gadael ar eu pen eu hun gyda grŵp o bobl ifanc.

 @SyniadauMawrCym | @BigIdeasWales

 SyniadauMawrCymru | BigIdeasWales

SyniadauMawr.cymru | BigIdeas.wales



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Cwestiwn Cyffredin	Ateb
	Dylai/gallai'r Model Rôl atgyfnerthu hyn gyda'r Athro/Darlithydd a'r ffaith na ddylent barhau os bydd hyn yn digwydd. Mae gan y Model Rôl yr hwl i ymadael a dylai sicrhau bod yr athro / tiwtor yn ymwybodol o hyn. Fodd bynnag, os ydy'r grŵp dros 18 oed mae angen defnyddio synnwyr cyffredin hefyd gan roi ystyriaeth i'r math o grŵp mae'r Model Rôl yn gweithio gyda nhw.
Pwy sy'n gyfrifol am ymddygiad gwael y bobl ifanc?	Yr Athro/Darlithydd yn ogystal â'r sefydliad sydd â chyfrifoldeb dros ymddygiad gwael y bobl ifanc. Nid yw hyn yn gyfrifoldeb y Modelau Rôl. Rhaid i chi roi gwybod i'r Athro/Darlithydd am unrhyw ymddygiad y teimlwch ei fod yn annerbyniol.
Oes aelod penodol o Staff Diogelu sy'n gyfrifol ym mhob lleoliad? Pwy ddylai Model Rôl gysylltu ag ef/hi o Syniadau Mawr Cymru os bydd problem?	Oes, bydd rhywun sy'n gyfrifol am ddiogelu o fewn pob lleoliad ond mae'n bosibl na fydd hyn yn cael ei wneud yn amlwg. Mewn rhai achosion rhoddir gwybod i ymwelwyr am hyn fel rhan o'r weithdrefn llofnodi i mewn ar ôl cyrraedd. Y Swyddog Diogelu dynodedig ar gyfer y contract ydy Paul Brown a gallwch gysylltu ag ef ar: paul.brown@bigideaswales.com 02920 441900 neu 07789 616792 Y Dirprwy ydy Delyth Rowlands ac mae'n bosib cysylltu â hi ar: delyth.rowlands@bigideaswales.com 07776 160082



Cwestiwn Cyffredin	Ateb
Beth sy'n digwydd os bydd Model Rôl naill ai'n gweld neu'n clywed am rywbeth sydd o bryder iddynt ac sydd o bosib yn fater diogelu?	Yn y lle cyntaf dwedwch wrth yr Athro/Darlithydd a chysylltwch â swyddog diogelu Syniadau Mawr Cymru: Paul Brown neu, os na fydd ef ar gael, Delyth Rowlands a rhoi gwybod iddyn nhw am y digwyddiad, ac enw'r person sydd wedi cael ei hysbysu yn y lleoliad. Yna caiff hyn ei gofnodi a'i ymchwilio gyda'r cyswllt diogelu yn yr ysgol/sefydliad a'r awdurdod lleol os bydd angen. Gofynnir i chi gwblhau ffurflen digwyddiad diogelu.
Ydy Modelau Rôl yn cael gweithio ar eu pen eu hun gyda Pherson Ifanc?	Os ydyn nhw dros 18 oed a heb fod yn oedolyn hawdd ei niweidio, ydyn. Ond y peth gorau bob tro yw cynnal y gweithdy/cyfarfod mewn amgylchedd lle bydd pobl eraill yn bresennol/yn y cyffiniau. Yn achos pobl ifanc o dan 18 oed, dim ond os bydd rhiant neu warcheidwad yn bresennol.
Beth os bydd person ifanc yn gofyn am fanylion cyswllt Model Rôl?	Rhaid i Fodelau Rôl beidio â rhoi eu manylion cyswllt gan gynnwys eu rhif ffôn symudol personol, rhif llinell tir personol a chyfeiriad e-bost personol os bydd person ifanc yn gofyn amdany'n nhw. Dylai pobl ifanc bob amser gael eu hannog i gysylltu ag aelod o staff Syniadau Mawr Cymru, eu cyfeirio at wefan Syniadau Mawr Cymru, neu eu hargymhell i gysylltu â Llinell Gymorth Busnes Cymru (03000 6 03000) os bydd angen mwy o gefnogaeth arny'n nhw.



Cwestiwn Cyffredin	Ateb
Beth os bydd person ifanc yn gofyn am gael cwrdd â'r Model Rôl yn dilyn eu sesiwn?	Mae angen i Fodelau Rôl osgoi'r sefyllfa hon rhag codi a gwrthod cysylltiad pellach yn dilyn eu sesiwn. Gall pobl ifanc fanteisio ar gefnogaeth ychwanegol drwy eu hysgol/sefydliad a thîm Syniadau Mawr Cymru. Anogwch bob person ifanc i gofrestru am y newyddion, digwyddiadau a diweddariadau oddi wrth Syniadau Mawr Cymru drwy fynd i www.SyniadauMawrCymru.com/cofrestru. Fel arall maen nhw'n gallu cysylltu ag aelod o dîm Syniadau Mawr Cymru a fydd yn hapus i helpu gyda'u hymholiad.
Beth sy'n digwydd os bydd Person Ifanc yn fy nghyhuddo i o rywbeth e.e. defnyddio iaith neu gysylltiad amhriodol.	dd angen adrodd hyn ar unwaith i'r Swyddogion Arweiniol Diogelu Dynodedig dros Syniadau Mawr Cymru, Paul Brown neu os na fydd ef ar gael Delyth Rowlands. Gwnewch nodyn o ddyddiad, amser a lleoliad y pryder. Cynhwyswch enw'r person ifanc os ydych chi'n ei wybod ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r digwyddiad. Bydd y Swyddogion Arweiniol yn cysylltu â'r lleoliad i ymchwilio ymhellach i'r honiad.

